



Arolygiaeth Gwasanaeth
Erlyn y Goron EM

Arolygiad o berfformiad y CPS wrth ddelio â dioddefwyr a thystion yng Ngwent a De Cymru (CPS Cymru-Wales)

Ebrill 2014





Arolygiaeth Gwasanaeth
Erlyn y Goron EM

Arolygiad o berfformiad y CPS wrth ddelio â dioddefwyr a thystion yng Ngwent a De Cymru (CPS Cymru-Wales)

Ebrill 2014



Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu crynodeb neu fersiwn cyflawn o'r llyfryn hwn mewn Braille, print bras neu mewn ieithoedd eraill.

I gael gwybodaeth neu i gael mwy o gopiau o'r llyfryn hwn, cysylltwch â'n Tîm Cyhoeddiadau ar 020 7210 1197, neu ewch i'n gwefan: www.hmcpai.gov.uk

Rhagair y Prif Arolygydd

Mae HMCPSI yn ymrwymedig i hyrwyddo gwelliant ac mae'r egwyddor hon wedi'i hymgorffori ym mhob agwedd ar ein gwaith. Mae'r arolygiad â ffocws hwn o unedau Gwasanaeth Eryl y Goron yng Ngwent a De Cymru wedi ein galluogi i archwilio'n fanylach y prosesau sy'n cefnogi gofal effeithiol i ddiodefwyr a thystion. Mae sicrhau bod hyn yn iawn yn hollbwysig oherwydd mae diodefwyr a thystion yn hanfodol i sicrhau cyfiawnder. Hebddynt, ni ellir erlyn troseddwr na rhyddfarnu'r dieuog.

Yn dilyn Rhaglen Archwilio Gwaith Achos Blynnyddol (ACEP) helaeth a gynhaliwyd yn 2012-13, gwelwyd bod canlyniadau mewn perthynas â diodefwyr a thystion yng Ngwasanaeth Eryl y Goron Cymru yn dda ar y cyfan. Roedd y canlyniadau darllen ffeiliau, i ryw raddau, wedi'u hategu gan ganlyniadau data cenedlaethol. Diben yr arolygiad hwn oedd treiddio'n ddyfnach i ganfod pa mor effeithiol oedd y systemau, y prosesau a'r gwaith partneriaeth mewn perthynas â diodefwyr a thystion, casglu arferion da a gwneud argymhellion lle bo angen.

Canfuwyd bod ymrwymiad cryf i gefnogi diodefwyr a thystion ac roedd enghreifftiau o berfformiad da a chanlyniadau yn brawf o hyn. Fodd bynnag, mae angen sicrhau gwelliant o hyd mewn sawl maes. Un maes sy'n peri pryder penodol yw'r angen i reolwyr Gwasanaeth Eryl y Goron ymgysylltu'n fwy effeithiol a chyson ag Unedau Gofal Tystion.

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud sawl argymhelliad a fydd, gobeithio, yn golygu bod y gefnogaeth i ddiodefwyr a thystion hyd yn oed yn gryfach.



Michael Fuller QPM BA MBA LLM LLD (Anrh)
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi



Cynnwys

Rhagair y Prif Arolygydd

1	Crynodeb gweithredol	1
	Canfyddiadau	1
	Argymhellion	3
	Arfer da	3
2	Cyflwyniad a chyd-destun	5
	Methodoleg.....	5
3	Ymateb i anghenion dioddefwyr a thystion	7
	Mesurau arbennig.....	7
	Cyfathrebu â dioddefwyr a thystion.....	9
	Defnyddio gwysion tystio.....	9
4	Hysbysu dioddefwyr pan na fydd achos yn mynd rhagddo mwyach	11
	Ansawdd llythyrau DCV	11
	Cydymffurfio ag amseroldeb llythyrau DCV.....	13
	Nodi achosion lle mae angen llythyr DCV.....	14
	Cynnig cyfarfodydd i esbonio'r penderfyniad i ddioddefwyr.....	15
5	Cymorth i ddioddefwyr a thystion yn y llys	17
	Addewid yr Erlynwyr	18
	Datganiad personol dioddefwyr.....	19
	Y Gwasanaeth Tystion	20
	Cyfleusterau yn y llys.....	20
6	Perfformiad a threfniadau partneriaeth	21
	Unedau Gofal Tystion	22
	Atodiad A: Methodoleg	25
	Atodiad B: Rhestr termau	27



1 Crynodeb gweithredol

1.1 Archwiliodd yr arolygiad hwn systemau a strwythurau'r gwasanaeth a ddarperir i ddiodefwyr a thystion gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn Ne Cymru a Gwent a'r modd y rheolir y gwasanaeth hwnnw. Nid oes un asiantaeth cyfiawnder troseddol yn llwyr gyfrifol am y broses diodefwyr a thystion o'r dechrau i'r diwedd. Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar y gwasanaeth a roddir gan y CPS tra'n cydnabod yr ystod ehangach o wasanaethau i ddiodefwyr a thystion a ddarperir gan asiantaethau eraill. Felly nid archwiliodd yr arolygiad y gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau eraill na materion llywodraethu cenedlaethol ehangach y system cyfiawnder troseddol.

1.2 Mae'r arolygiad hwn yn dilyn ein canfyddiadau yn ein Rhaglen Archwilio Gwaith Achos Blynyddol¹ (ACEP), a data cenedlaethol a ddangosodd fod canlyniadau mewn perthynas â diodefwyr a thystion yn CPS Cymru yn dda ar y cyfan. Diben yr arolygiad felly oedd asesu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth, prosesau'r CPS, systemau a gwiriadau ansawdd a nodi arfer da mewn perthynas â materion yn ymwneud â diodefwyr a thystion.

¹ Mae ACEP yn archwilio ansawdd gwaith achos y CPS. Yn ystod y flwyddyn 2012-13 archwiliodd HMCPSI gyfanswm o 2,802 o ffeiliau achos (a oedd yn cynnwys 2,690 o achosion lle y gwnaed cyhuddiadau a 11 o benderfyniadau y tu allan i'r llys) ar draws pob ardal CPS a CPS Direct.

Canfyddiadau

1.3 Mae perfformiad o ran diodefwyr a thystion yng Ngwent a De Cymru yn dda: roedd cyfraddau collfarnu yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol (Cymru a Lloegr) yn 2012-13; roedd cyfraddau presenoldeb tystion hefyd yn well yn genedlaethol yn 2012-13 ac maent wedi gwella yn ystod 2011-12; mae atgyfeiriadau gan Unedau Gofal Tystion (WCUs) a'r CPS at asiantaethau cymorth addas yn uwch na'r ffigur cenedlaethol, fel y mae'r gyfradd dderbyn gan ddiodefwyr a thystion; ac mae cyfraddau ystyried barn diodefwyr wrth benderfynu peidio â pharhau ag achos yn well unwaith eto na'r rhai cenedlaethol.

1.4 Mae llythyrau a anfonir at ddiodefwyr yn unol â chanllawiau Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr (DVC), pan wneir penderfyniadau i dynnu'n ôl, peidio â pharhau neu newid cyhuddiadau yn sylweddol, o safon foddhaol ar y cyfan. Roedd y llythyrau a archwiliwyd wedi cael eu hysgrifennu gan gyfreithiwr a oedd wedi bod yn rhan o'r penderfyniad a'r person gorau felly i roi esboniad cynhwysfawr. Roedd pob llythyr yn ymateb ysgrifenedig llawn, yn hytrach nag ateb dros dro. Mae rheolwyr y CPS yn ddiweddar wedi dechrau hapsamplu ansawdd llythyrau DVC a rhoi adborth i gyfreithwyr. Mae cydymffurfio ag amseroldeb yn dda er i arolygwyr ganfod rhywfaint o gofnodi anghywir y mae angen ymdrin ag ef. Mae nodi achosion lle mae angen llythyrau DVC ar gyfer diodefwyr agored i niwed a rhai sy'n cael eu bygwth yn peri pryder, ac nid yw bron 27 y cant o'r diodefwyr yn ein sampl yn cael llythyr o gymharu â dim ond deg y cant mewn achosion eraill.

1.5 Mae ymrwymiad clir gan y CPS i roi trefniadau rhyngasiantaethol ar waith sydd wedi'u hanelu at wella profiad dioddefwyr a thystion. Canfuwyd enghreifftiau da ac arloesol o waith partneriaeth gan gynnwys defnyddio cysylltiadau byw â'r llys i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell. Mae'r CPS yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am berfformiad a gwybodaeth arall yn ymwneud â materion dioddefwyr a thystion sy'n helpu i lywio gwaith asiantaethau eraill. Mae cyfarfodydd mewnol y CPS fel Bwrdd Hyder Cymru Gyfan a chyfarfodydd allanol fel Grŵp Cyflawni Uned Gofal Tystion yn darparu ffocws strategol ar gyfer materion dioddefwyr a thystion, er bod rhai pryderon ynghylch diffyg fframwaith llywodraethu cenedlaethol cadarn.

1.6 Fodd bynnag, gwneir ceisiadau am fesurau arbennig yn aml ar gam hwyr a all beri pryder i ddiodefwyr a thystion a rhwystredigaeth i swyddogion gofal tystion. Gallai'r broses ar gyfer rhannu gwybodaeth am reidrwydd mesurau arbennig gael ei hatgyfnerthu, er y caiff hyn bron bob amser ei gefnogi gan y llysoedd ar ôl ei nodi. Yn ogystal, roedd y mesurau arbennig y gofynnodd yr erlynwyr amdanynt yn briodol mewn bron 95 y cant o'r holl achosion cymwys a archwiliwyd.

1.7 Mae llythyrau a anfonir gan Unedau Gofal Tystion weithiau yn darparu gwybodaeth groes i'r rhai a anfonir gan erlynwyr. Mae angen atgyfnerthu'r dull o sicrhau bod gan Unedau Gofal Tystion y wybodaeth gywir am gynnydd neu ganlyniad achosion. Gellid gwella hefyd y llythyrau templed safonol a ddefnyddir gan yr Unedau Gofal Tystion.

1.8 Mae'r defnydd o wysion tystio yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sy'n awgrymu bod eu defnydd yn anghymesur. Rydym yn pryderu mai arfer safonol yr Ardal oedd gwysio unrhyw dystion a nododd na fyddent yn mynychu'r llys neu a fyddai'n amharod i wneud hynny, yn hytrach na chymhwyso polisi'r CPS at bob achos unigol.

1.9 Dim ond mewn hanner yr holl achosion cymwys a archwiliwyd y gwnaed y cynnig i gyfarfod â dioddefwyr neu eu teuluoedd mewn achosion priodol i esbonio pam bod y penderfyniad i beidio â pharhau ag achos wedi'i wneud neu pam fod achos wedi ei dynnu'n ôl, sy'n peri pryder. Roedd y broses o gofnodi cyfarfodydd o'r fath hefyd yn wan.

1.10 Mae angen monitro datganiadau personol dioddefwyr (VPSs) yn well, sy'n caniatáu i'r dioddefwr fynegi sut y mae'r drosedd wedi effeithio arno. Anaml y cedwir gwybodaeth am niferoedd, p'un a oedd y VPS wedi ei ddarllen i'r llys a ph'un a gafodd unrhyw effaith ar y ddedfryd. Felly nid yw'n bosibl penderfynu a yw perfformiad sy'n ymwneud â'r agwedd bwysig hon ar ofal tystion yn gwella neu'n dirywio.

1.11 Mae Unedau Gofal Tystion yn darparu gwasanaeth hollbwysig i ddiodefwyr a thystion a gall eu cyfraniad yn aml gael canlyniad cadarnhaol, yn enwedig mewn achosion difrifol. Fodd bynnag, roedd gweledd rheolwyr y CPS a'u cydberthnasau â'r unedau yn wan. Mae rhai pryderon yn codi dro ar ôl tro y dylid ymdrin â hwy drwy strwythur cyfarfod mwy ffurfiol a sianeli cyfathrebu gwell.

Argymhellion

Nododd arolygwyr bum argymhelliad allweddol lle y gellir gwella, sef:

-
- 1 Mae angen rhoi proses effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod Unedau Gofal Tystion yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl am anghenion dioddefwyr a thystion (3.10).

 - 2 Dylai'r Ardal sicrhau ei hun fod ei harfer o wneud cais am wysion tystio yn gyson â pholisi cenedlaethol ac arfer gorau (3.18).

 - 3 Dylai'r Ardal gynnal yr archwiliadau canlynol:
 - Sefydlu a yw amseroldeb llythyrau DVC yn cael ei nodi'n gywir ar y system rheoli achosion
 - Adolygu a yw'n cydymffurfio â'r broses o anfon llythyrau DCV at ddioddefwyr agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth
 - Adolygu a yw'n cydymffurfio â'r broses o gynnig cyfarfodydd i ddioddefwyr neu deuluoedd mewn achosion priodol (4.25).

 - 4 Dylai'r Ardal adolygu ei systemau er mwyn ei galluogi i ddarparu mesurau ac effeithiolrwydd gwell cynllun datganiadau personol dioddefwyr (5.13).

 - 5 Dylai rheolwyr CPS gyflwyno fforwm rheolaidd gydag Unedau Gofal Tystion er mwyn trafod materion a phryderon i ddarparu gwell gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion (6.10).
-

Arfer da

-
- 1 Mae defnyddio cysylltiadau byw â'r llys yn darparu amgylchedd diogel a chyfleus i ddioddefwyr a thystion sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell (5.17).
-



2 Cyflwyniad a chyd-destun

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPsi) ac yn archwilio'r gwasanaeth a roddir gan Wasanaeth Erlyn y Goron i ddiodefwyr a thystion yng Ngwent a De Cymru (CPS Cymru²).

2.2 Mae hyn yn dilyn ein canfyddiadau ACEP a'r data cenedlaethol a ddangosodd fod canlyniadau mewn perthynas â diodefwyr a thystion yn CPS Cymru yn dda ar y cyfan. Diben yr arolygiad felly oedd asesu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth, prosesau'r CPS, systemau a gwiriadau ansawdd a nodi arfer da mewn perthynas â materion yn ymwneud â diodefwyr a thystion.

2.3 Mae sicrhau bod gan diodefwyr a thystion yr hyder i hysbysu'r heddlu am drosedd a rhoi eu tystiolaeth yn y llys yn amlwg wrth wraidd system cyfiawnder troseddol weithredol a llwyddiannus. Nid oes un asiantaeth yn 'berchen' ar y berthynas rhwng y diodefwyr a'r tyst drwy gydol bywyd trosedd. Felly mae'n bwysig bod pob asiantaeth yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth integredig yn hytrach na thameidiog³. Mae gan y CPS ddyletswyddau penodol i diodefwyr a thystion sy'n ymwneud â chyngor cyn

cyhuddo, detholiad o gyhuddiadau, hynt briodol achosion, penderfyniadau i beidio â pharhau ag achos, erlyn a dedfrydu.

2.4 Ni fwriadwyd i'r arolygiad ganolbwyntio ar unrhyw gategori penodol o diodefwyr neu drosedd; felly roedd yn cynnwys ystod eang o achosion gan gynnwys y rhai a ymddangosodd yn y llys ynadon a Llys y Goron. Nid oedd yn ymestyn i'r asiantaethau eraill a oedd yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau i diodefwyr a thystion (nid oes gan HMCPsi bwerau statudol i arolygu'r asiantaethau hyn) er i ni ystyried dull y CPS o ymdrin â materion partneriaeth.

Methodoleg

2.5 Gwnaethom ymgymryd â'r canlynol:

- Ymweliadau maes â CPS Cymru, yn enwedig cyn Ardaloedd CPS Gwent a De Cymru
- Cyfweiliadau â staff gwahanol gan gynnwys uwch reolwyr, cyfreithwyr a staff cymorth
- Arolwg o staff Unedau Gofal Tystion yng Ngwent a De Cymru
- Dadansoddiad o'r ddogfennaeth a gyflenwyd, dogfennaeth ffynhonnell agored ac adolygiad o systemau gweithredol
- Archwilio llythyrau DCV

Aseswyd ein canfyddiadau yn erbyn fframwaith safonau. Mae'r fethodoleg lawn yn atodiad A.

² Ar ddechrau 2010 roedd CPS Cymru yn cynnwys pedair Ardal ar wahân: De Cymru; Gwent; Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Roeddent yn cydffinio â'r pedwar heddlu a byrddau cyfiawnder troseddol lleol (LCJBs). O ganlyniad i ailstrwythuro'r CPS yn genedlaethol yn ystod rhan olaf 2010 ac ar ddechrau 2011 unodd y pedair Ardal ar wahân i greu un ardal fawr. O ganlyniad cafodd rhai swyddogaethau eu canoli neu eu huno. Erys yr heddluoedd ac ardaloedd LCJB yn ddigyfnewid.

³ Mae Cod Dioddefwyr newydd 2013 yn nodi 14 o asiantaethau gwahanol sy'n rhoi gwasanaethau i diodefwyr: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/254459/code-of-practice-victims-of-crime.pdf



3 Ymateb i anghenion dioddefwyr a thystion

3.1 Drwy gydol hynt achos mae'n hanfodol bod pob asiantaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth i dioddefwyr a thystion yn ymateb yn brydlon er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion eu nodi a'u diwallu. Gall methiannau neu ddiffygion yn hyn o beth yn aml gael effaith sylweddol, ac andwyol, ar adegau, ar y posibilrwydd o gael erlyniad llwyddiannus.

3.2 Felly, er enghraifft, mae adnabod dioddefwyr a thystion agored i niwed a rhai sy'n cael eu bygwth yn ffactor allweddol er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r cymorth priodol o'r adeg cyhuddo tan i'r achos gael ei gwblhau. Mae Cod y Dioddefwyr yn nodi y dylai pob sefydliad â chyfrifoldebau o dan y Cod nodi dioddefwyr agored i niwed a rhai sy'n cael eu bygwth fel y'u diffinnir gan y Cod⁴.

3.3 Yn dilyn nodi tystion agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth mae'n ofynnol i'r CPS asesu anghenion dioddefwyr, tystion a lle y bo'n berthnasol, eu teuluoedd. Dylai ystyried pryderon perthnasol tystion a chanlyniadau a risgiau peidio ag ymdrin â phryderon o'r fath. Canfuwyd bod yr adolygiad o anghenion dioddefwyr a thystion yn anghyson. Ar adegau roedd erlynwyr yn adolygu ffeiliau'r heddlu yn hwyrach nag y dylent; ar adegau eraill roedd pwysau cystadlu ar adolygu amser cyfreithwyr yn aml yn golygu bod yr adolygiadau'n cael eu rhuthro ac, o ganlyniad, nid oedd yr anghenion hyn yn aml yn cael eu hystyried ar gam cynnar yn y broses.

4 Diffinnir tystion agored i niwed fel plant a phobl ifanc dan 17 oed a'r rhai sydd ag analluogrwydd corfforol neu feddyliol. Tystion sy'n cael eu bygwth yw'r rhai sy'n ofni rhoi tystiolaeth neu sy'n gofidio ynglŷn â gwneud hynny, a all leihau ansawdd y dystiolaeth honno - er enghraifft dioddefwyr trais rhywiol neu ddomestig.

Mesurau arbennig

3.4 Yn ogystal â sicrhau bod pobl agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth yn cael eu nodi'n gywir, mae'n bwysig i erlynwyr ddeall a yw mesurau arbennig, i alluogi tystion i roi'r dystiolaeth orau bosibl, yn addas mewn unrhyw achos penodol⁵.

3.5 Mae Cod y Dioddefwyr yn rhoi cyfrifoldeb ar y CPS i sicrhau bod systemau ar waith i helpu'r erlynwyr i ystyried p'un a ddylid gwneud cais i'r llys am gyfarwyddyd mesurau arbennig ai peidio. Gall trafod anghenion dioddefwr neu dyst ar gam cynnar gyda'r heddlu helpu i wella hynt achos a rhoi lefel o sicrwydd i dioddefwyr ac i dystion⁶.

3.6 Yn ein gwiriadau archwilio ffeiliau ACEP yn 2012-13 gwnaethom edrych i weld a ofynnwyd am y mesurau arbennig mwyaf priodol ym mhob achos. O blith yr wyth achos yng Ngwent lle roedd hyn yn gymwys, gofynnwyd am yr holl fesurau arbennig priodol (100 y cant) ac mewn 18 allan o'r 19 o achosion yn Ne Cymru (94.7 y cant). Mae canlyniadau cyfunol De Cymru a Gwent o 96.3 y cant yn cymharu'n ffafriol â chanlyniadau ACEP cenedlaethol (Cymru a Lloegr) o 93.1 y cant, er eu bod ychydig yn waeth na chanlyniadau cyfunol pob Ardal (CPS Cymru) (97.8).

5 Mae'r rhain yn cynnwys y dystiolaeth flaenaf wedi'i recordio, cyswllt byw, sgriniau o amgylch y llwyfan tystio, rhoi tystiolaeth yn breifat, rhoi tystiolaeth drwy gyswllt pell, y rhai sydd yn y llys yn tynnu wigiau a gynau, croesholi wedi'i recordio ar fideo, archwilio'r tyst drwy ganolwr a chymhorthion ar gyfer cyfathrebu drwy gyfathrebwr neu ddehonglydd.

6 Gellir trafod p'un a oes angen mesurau arbennig mor gynnar â'r cam cyhuddo. Mae CPS Direct (CPSD) bellach yn ymdrin â'r rhan fwyaf o benderfyniadau cyhuddo'r Ardal. Nid oedd asesu ansawdd penderfyniadau cyhuddo CPSD yn rhan o'r arolygiad hwn. Dylai p'un a yw CPSD yn amlygu'r angen am fesurau arbennig ar y cam cyhuddo bob amser gael ei adolygu gan gyfreithiwr Ardal.

3.7 Er bod y mesurau arbennig y gwnaed cais amdanynt yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion, canfuwyd bod ceisiadau yn aml yn cael eu gwneud ar gam hwyr. Mae rhesymau amrywiol am hyn, gan gynnwys y ffaith nad oes un o gyfreithwyr adolygu'r CPS ar gael i ystyried yr achos yn gynnar, sydd wedyn yn arwain at nodi'n hwyr bod angen mesurau arbennig. Felly dim ond yn hwyr yn y broses y gall Unedau Gofal Tystion weithiau⁷, sy'n allweddol i sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael eu hysbysu am yr hyn sy'n digwydd, gynnal eu hasesiadau. Hefyd, nid oes dim ar system rheoli achosion (CMS) y CPS i nodi bod angen mesurau arbennig; mae hyn yn aml yn golygu na all Unedau Gofal Tystion ddweud wrth edrych ar y system p'un a wnaed cais am fesurau arbennig. Mewn cyfweiliadau â staff Unedau Gofal Tystion gwelwyd nad ydynt yn aml yn ymwybodol o hyn nes bod dioddefwyr a thystion yn gofyn a oes mesurau arbennig wedi'u trefnu ar eu cyfer.

3.8 Yn achlysurol, gall staff Unedau Gofal Tystion ddysgu am hyn o ffurflen rhestr y tystion sy'n dod i'r llys (LWAC), ond yn aml ni roddir rhagor o fanylion ar y ffurflen i ddweud beth yw'r mesur arbennig y gofynnwyd amdano.

⁷ Mae unedau gofal tystion yng Ngwent a Chymru yn cynnwys cymysgedd o staff sifil yr heddlu a staff cymorth y CPS. Esbonnir eu rôl ym mharagraff 6.8.

3.9 Lle y nodir ceisiadau am fesurau arbennig yn hwyr, mae hyn yn aml yn golygu gofyn i'r heddlu gael datganiad gan y dioddefwr neu'r tyst yn esbonio pam fod angen mesurau penodol yn eu barn hwy. Er bod CMS yn caniatáu i'r CPS a swyddogion gofal tystion gysylltu â'i gilydd i ddweud nad yw camau o'r fath wedi cael eu cymryd, ni chaiff hyn ei ddefnyddio bob tro. Gall hyn wedyn olygu bod hyd yn oed fwy o oedi cyn cyflwyno ceisiadau i'r llys. Mae Unedau Gofal Tystion wedi dweud bod yr oedi hyn yn achosi llawer o straen a phryder i ddioddefwyr a thystion, sy'n aml yn amharod wedyn i ddod i'r llys. Fodd bynnag, ar y cyfan, unwaith y bydd mesurau arbennig wedi eu nodi ac y gwneir cais amdanynt, caiff y rhan fwyaf eu cefnogi gan y llysoedd.

3.10 Mae'r CPS yn defnyddio gwiriadau Monitro Safonau Ansawdd Craidd (CQSM) i sicrhau ei hun o ran materion fel amseroldeb ac ansawdd asesiadau o anghenion, datganiadau personol dioddefwyr, mesurau arbennig ac ati. Yn anffodus, dim ond fel rhan o'r sicrwydd ansawdd cyffredinol ynghylch gwaith achos y caiff y rhain eu hystyried a phrin yw'r asesiadau neu'r archwiliadau ar faterion penodol, heblaw cyflwyno sicrwydd ansawdd yn ddiweddar ar gyfer llythyrau DCV (gweler pennod 4).

Argymhelliad

Mae angen rhoi proses effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod Unedau Gofal Tystion yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl am anghenion dioddefwyr a thystion.

Cyfathrebu â dioddefwyr a thystion⁸

3.11 Ar y cyfan, gall dioddefwyr a thystion nodi'r dull cyfathrebu sydd orau ganddynt. Gan amlaf, llythyr yw'r dull cyfathrebu a ddewisir o hyd; fodd bynnag, mae e-bost yn mynd yn fwy poblogaidd. Hefyd, mae gan ddiodeswyr a thystion yr opsiwn o gael rhywfaint o wybodaeth yn Gymraeg neu gysylltu ag aelod o staff y CPS sy'n siarad Cymraeg.

3.12 Datgelodd ein harolygiad fod diodeswyr, yn gyffredinol, yn cael gwybodaeth am hynt eu hachos gan gynnwys, lle y bo'n briodol, fanylion am amodau mechniaeth diffnyddion a dyddiadau treial. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod erlynwyr yn adolygu rhai ffeiliau yn hwyr ac yn derbyn gwybodaeth berthnasol yn hwyr yn yr Uned Gofal Tystion yn cael effaith andwyol ar amseroldeb cyfathrebiadau.

3.13 Cawsom wybod bod llythyrau a anfonir gan erlynwyr ac Unedau Gofal Tystion weithiau yn rhoi gwybodaeth groes neu wahanol am hynt neu ganlyniadau achos. Mae'n hanfodol bod gan yr Uned Gofal Tystion y wybodaeth ddiweddaraf pan fyddant yn cyfathrebu â diodeswyr a thystion. Ceir rhai problemau wrth drosglwyddo data o CMS i system rheoli tystion y CPS. Ceir disgwyliad y dylai staff Unedau Gofal Tystion ddefnyddio CMS i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad oes gan y rhan fwyaf o staff Unedau Gofal Tystion yng Ngwent a De Cymru fynediad i systemau'r CPS na systemau'r heddlu. Felly rhaid i staff Unedau Gofal Tystion ddibynnu ar un neu ddau o'u cydweithwyr sydd â mynediad o'r fath, neu gysylltu â thîm y CPS sy'n ymwneud â hynt achosion, er mwyn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.


3.14 Mae gwir angen adolygu'r templedi ar gyfer llythyrau diodeswyr a thystion; mae'r rhai a ddefnyddir gan staff Unedau Gofal Tystion yn arbennig o wael. Roedd yn amlwg bod llythyrau cyfredol Unedau Gofal Tystion yn gorfod cael eu newid yn sylweddol ac yn aml mae'n haws dileu'r rhan fwyaf o'r testun safonol ac ailysgrifennu'r llythyr. Mae'r Ardal yn ymdrechu i ddiweddarau rhai llythyrau templed, fodd bynnag, mae'r cynnydd yn araf. Yn ein barn ni, mae hwn yn fater y dylid ymdrin ag ef yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod pob Uned Gofal Tystion yn defnyddio templedi y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, lle y bo'n briodol⁹.

Defnyddio gwsion tystio

3.15 Mae canran uchel o achosion trais domestig fel cyfran o'r llwyth achosion yn CPS Cymru. Mae hyn yn amlwg iawn yng Ngwent, sydd â'r ganran uchaf yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae De Cymru yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Cawsom ein hysbysu bod y niferoedd uchel o achosion trais domestig wedi arwain at nifer fawr o ddiodeswyr yn tynnu eu datganiadau yn ôl neu'n dymuno peidio â mynd i'r llys, sy'n golygu y gwneir cais am fwy o wwsion tystio yn yr Ardal. Lleihaodd y defnydd o wwsion tystio yn genedlaethol o 2.50 y cant yn 2011-12 i 2.44 y cant yn 2012-13. Fodd bynnag, yng Ngwent a De Cymru mae eu defnydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn cynyddu. Yng Ngwent cododd nifer y gwwsion o 3.01 y cant yn 2011-12 i 3.96 y cant yn 2012-13 ac yn Ne Cymru o 5.76 y cant yn 2011-12, fwy na dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol, i bron dair gwaith y ffigur cenedlaethol yn 2012-13 sef 6.41.

⁸ Ymdrinnir â chyfathrebu'n uniongyrchol â diodeswyr pan na fydd achos mwyach yn mynd rhagddo ym mhennod 4.

⁹ Mae templedi diwygiedig wedi eu paratoi a rhagwelir y bydd y rhain ar gael ar y system rheoli tystion ym mis Ebrill 2014.



3.16 Mae cyfweiliadau ag erlynwyr Ardal a swyddogion gofal tystion yn awgrymu bod cyfreithwyr wedi cael eu cyfarwyddo i fwrw ymlaen â gwys tystio os yw dioddefwr yn gwrthod mynd i'r llys. Polisi Cymru yw y dylid cynnal asesiad risg cyn gwneud cais am wŷs ond cawsom ein hysbysu mai anaml y bydd hyn yn digwydd. Nododd yr Ardal fod y mwyafrif o achosion lle mae'r dioddefwr yn amharod i fynd i'r llys yn ymwneud â thrais domestig. Yn Ne Cymru mae canran yr achosion o drais domestig fel canran o'r holl achosion yn unol â ffigurau cenedlaethol ond yng Ngwent mae'r gyfran yn sylweddol uwch. Mae hyn yn awgrymu defnydd anghymesur o wysion yn Ne Cymru.

3.17 Mae polisi a chanllawiau cyfreithiol y CPS ar drais domestig yn ei gwneud yn glir mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid anfon gwys tystio ac mai dim ond os yw un o'r canlynol yn berthnasol y dylid ei hystyried: nid yw'r dioddefwr yn fodlon rhoi tystiolaeth, hyd yn oed gyda help mesurau arbennig a chymorth arall; ni all yr achos fynd rhagddo heb gyfranogiad

y dioddefwr; ac ni fydd parhau â'r achos yn peryglu diogelwch y dioddefwr na diogelwch unrhyw blant. Codwyd pryderon gan staff y CPS ac Unedau Gofal Tystion mai arfer safonol yr Ardal oedd gwysio unrhyw dystion a oedd yn dweud na fyddent yn mynd i'r llys. Rhannwn y pryderon hyn. Teimlwn hefyd y gallai adolygu achosion yn hwyr a gwneud cais hwyr am fesurau arbennig gyfrannu at amharodwydd tystion i fynd i'r llys a'i gwneud yn fwy tebygol y bydd angen gwys tystio (neu fygythiad o hynny). Gallai'r cyfuniad hwn o ffactorau ddieithrio tyst parod fel arall.

3.18 Er bod y cyfraddau collfarnu yng Ngwent a De Cymru yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2012-13, nid oes tystiolaeth uniongyrchol i awgrymu bod polisi cadarn o anfon gwysion tystio yn cyfrannu'n sylweddol at y perfformiad hwn. Gall defnyddio gwysion yn yr achosion sensitif hyn fod yn ddadleuol, er y gellir eu cyfiawnhau mewn amgylchiadau priodol. Rydym yn poeni bod polisi cyffredinol o wneud cais am wysion yn yr achosion hyn yn anwybyddu'r angen i ystyried pob achos yn ofalus.

Argymhelliad

Dylai'r Ardal sicrhau ei hun fod ei harfer o wneud cais am wysion tystio yn gyson â pholisi cenedlaethol ac arfer gorau.

4 Hysbysu dioddefwyr pan na fydd achos yn mynd rhagddo mwyach

4.1 Polisi datganedig y CPS yw bod angen i'r Gwasanaeth esbonio i dioddefwyr troseddau ei benderfyniadau i ollwng cyhuddiadau yn erbyn troseddwr neu eu newid yn sylweddol. Mae canllawiau DCV y CPS yn ei gwneud yn ofynnol i lythyr gael ei anfon o fewn un diwrnod gwaith i'r penderfyniad mewn achosion lle yr ystyrir bod dioddefwr yn agored i niwed neu'n cael ei fygwth ac o fewn pum niwrnod gwaith i dioddefwyr eraill.

4.2 Gall y CPS gysylltu â dioddefwr i esbonio penderfyniad naill ai dros y ffôn, drwy anfon llythyr dros dro tra bod llythyr esboniadol llawn yn cael ei ddrafftio, neu drwy anfon llythyr llawn yn y lle cyntaf. Mewn rhai amgylchiadau mae sgwrs gyda dioddefwr yn y llys yn negyddu'r angen am lythyr DCV cyhyd â bod y dioddefwr wedi datgan nad oes angen llythyr.

Ansawdd llythyrau DCV

4.3 Archwiliwyd cyfanswm o 60 o achosion lle roedd yn briodol anfon llythyr DCV. Roeddent yn cynnwys 18 o ffeiliau o uned Llys y Goron a 12 o ffeiliau o uned y llys ynadon o Dde Cymru a Gwent. Cymerwyd y sampl o ffeiliau o achosion y nodwyd bod ganddynt dioddefwr penodol rhwng mis Awst a mis Gorffennaf 2013 ac roedd yn cynnwys 29 o ffeiliau lle y nodwyd bod y dioddefwr yn agored i niwed neu'n cael ei fygwth.

4.4 Yn gyffredinol, roedd y llythyrau a archwiliwyd o safon foddhaol ac, ar y cyfan, yn gyson â'r canllawiau DVC cenedlaethol a gyhoeddwyd gan y CPS. Roedd y mwyafrif yn nodi'n glir y rheswm dros y penderfyniad i newid y cyhuddiadau'n sylweddol neu eu gollwng ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir heb jargon cyfreithiol. Er bod paragraffau safonol yn y rhan fwyaf ohonynt, fe'u defnyddwyd mewn ffordd briodol ac roedd

y testun fel arall wedi'i deilwra i amgylchiadau'r achos, felly nid oedd y rhan fwyaf o'r llythyrau yn ymddangos yn fformiwläig. Roedd pob un a archwiliwyd yn ymateb ysgrifenedig llawn yn hytrach na llythyr dros dro wedi'i ddilyn gan ymateb llawn. Yn ein barn ni roedd hwn yn arfer da cyson, yn unol â'r canllawiau ac nid oedd yn effeithio'n andwyol ar amseroldeb.

4.5 Perfformiodd yr Ardal yn well o ran darparu esboniad digonol o'r rheswm dros atal yr achos na'r hyn a welwyd yn adroddiad archwilio HMCPSI yn 2009¹⁰. Darparwyd hyn mewn 94.0 y cant o'r llythyrau a welwyd yng Nghymru o gymharu ag 88.7 y cant yn ein harchwiliad.

4.6 Roedd y llythyrau wedi'u hysgrifennu gan gyfreithiwr mewn pob achos namyn un. Yn amlach na pheidio, roedd y llythyr wedi'i ysgrifennu gan y cyfreithiwr a oedd yn gwneud y penderfyniad i ollwng cyhuddiad neu ei newid yn sylweddol ac fe'i hysgrifennwyd ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad. Os oedd y penderfyniad wedi ei wneud yn y llys, cyfreithiwr yn swyddfa'r CPS yn amlach na pheidio oedd wedi ysgrifennu'r llythyr ar ôl i'r ffeil gael ei dychwelyd i'r swyddfa, yn hytrach na'r cyfreithiwr oedd wedi bod yn y llys. Mewn rhai o'r achosion, roedd y cyfreithiwr yn y swyddfa wedi cymeradwyo'r penderfyniad i ollwng neu newid cyhuddiad yn y llys. Roedd hyn yn golygu bod y mwyafrif o'r llythyrau wedi'i hysgrifennu gan rywun a oedd yn ymwneud â'r penderfyniad ac a oedd mewn sefyllfa i roi esboniad da o'r rhesymau. Bydd hyn wedi cyfrannu at safon dda y llythyrau a welwyd a gafodd eu teilwra i amgylchiadau'r achos ac nad oeddent yn gyfres o baragraffau safonol yn unig.

¹⁰ Adroddiad archwilio dilynol o berfformiad Gwasanaeth Erlly y Goron mewn perthynas â hysbysu dioddefwyr yn rheolaidd am ddatblygiadau newydd (Hydref 2009).


4.7 Yn yr achosion hynny lle roedd y CPS wedi cael rhagor o wybodaeth gan y dioddefwr a oedd yn aml wedi dylanwadu ar y penderfyniad i ollwng neu newid y cyhuddiadau neu wedi arwain at y penderfyniad hwnnw, roedd cyfeiriad at hyn yn y llythyr. Mae hyn yn cydymffurfio â chanllawiau DVC ac yn cadarnhau i'r dioddefwr bod ei safbwyntiau wedi cael eu hystyried.

4.8 Y paragraffau safonol a ddefnyddiwyd amlaf oedd y rhai a oedd yn esbonio rôl y CPS a chymhwysu'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Roedd y rhain yn briodol ym mhob llythyr a welwyd heblaw un lle roedd y dioddefwr yn un o swyddogion yr heddlu. Y paragraffau safonol cyffredin eraill a ganfuwyd oedd y rhai a ddefnyddiwyd i fynegi empathi gyda'r dioddefwr. Mewn rhai achosion, nid oedd y dewis yn adlewyrchu'r lefel briodol o empathi yn ddigonol. Mewn llythyrau eraill, roedd paragraffau safonol ar gyfer mynegi empathi yn cael eu hailadrodd. Fodd bynnag, mynegwyd rhywfaint o empathi mewn 89.6 y cant o'r llythyrau a welwyd sy'n cymharu â'r 90.6 y cant a welwyd yn adroddiad archwilio 2009.

4.9 Mae ansawdd llythyrau DVC yn agwedd ar berfformiad y mae'r Ardal yn ddiweddar wedi addo ei fonitro'n agosach. Mae Penaethiaid Unedau wedi dechrau eu hapsamplu a rhoi adborth i gyfreithwyr mewn ymdrech i wella ansawdd. Rhoddwyd gradd foddhaol gan reolwyr i'r mwyafrif o lythyrau a gafodd eu gwirio am sicrwydd ansawdd, er i'n hasesiad awgrymu ansawdd mwy amrywiol¹¹.

4.10 Mae Paneli Craffu ar Droseddau Casineb Lleol hefyd yn archwilio unrhyw lythyrau DCV ar yr achosion y maent yn eu monitro. Mae hyn yn rhoi safbwynt y rhai sydd y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol i'r Ardal, sy'n ddefnyddiol. Mae'r adborth hwn, ynghyd â'r wybodaeth a roddir gan waith monitro'r Penaethiaid Unedau, yn rhoi'r cyfle i'r Ardal ddysgu sut i dargedu gwelliannau yn ansawdd y llythyrau a anfonir at ddiodefwyr. Ceir tystiolaeth hefyd fod proses adolygu'r panelau yn dylanwadu ar safon y llythyrau oherwydd tynnwyd sylw cyfreithwyr at y ffaith bod eu hachosion efallai yn agored i'r broses graffu allanol hon.

4.11 Roedd ansawdd y llythyrau o Went a welwyd yn well na'r rhai o Dde Cymru. Roedd y rhesymau pam nad oedd llythyrau a aseswyd yn bodloni'r safon ddisgwyliedig yn llwyr yn cynnwys y ffaith na roddwyd ystyriaeth i ddiogelwch dioddefwyr trais domestig wrth lunio'r paragraff safonol ac na lwyddwyd i gynnwys ffynonellau cymorth i'r dioddefwyr hyn ychwaith. Roedd materion eraill yn cynnwys diffyg empathi, defnyddio termau cyfreithiol na chawsant eu hesbonio'n llawn a llythyrau nad oeddent yn ystyried amgylchiadau llawn yr achos penodol.



¹¹ Ni wnaethom archwilio'r un llythyrau DVC â'r Penaethiaid Unedau.

4.12 Roedd paragraff safonol a fyddai'n cael ei ychwanegu fel arfer mewn llythyr(au) at ddiodefwyr trais domestig er mwyn eu hannog i hysbysu'r heddlu am unrhyw ddigwyddiadau pellach ar goll mewn saith o'r 18 o achosion lle roedd yn berthnasol. Achosion o Dde Cymru oedd y rhai a anghofiodd gynnwys y paragraff hwn. Hefyd nid oedd gan dri achos o drais domestig o un uned llys ynadon yn Ne Cymru unrhyw lythyrau DVC pan benderfynwyd peidio â pharhau ag achosion. Mewn dau achos nododd y daflen cofnodi gwrandawriad fod rhywun wedi siarad â'r dioddefwr yn y llys er nad oedd nodyn o'r hyn a drafodwyd na chadarnhad bod y dioddefwr wedi awgrymu nad oedd angen llythyr arno. Yn y trydydd nid oedd unrhyw esboniad pam nad anfonwyd llythyr. Mae angen i'r Ardal fynd i'r afael â'r hepgoriadau hyn er mwyn sicrhau gwel cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol.

4.13 Ac eithrio achosion trais domestig, nid oedd y llythyrau yn cynnwys gwybodaeth am asiantaethau cymorth priodol. Hyd yn oed yn y math hwn o achos nid oeddent bob amser yn cynnwys gwybodaeth na manylion cyswllt ar gyfer ffynonellau cymorth. Mewn 11 o'r 18 o achosion trais domestig, ni chyfeiriwyd at ffynhonnell cymorth. Dylai'r Ardal sicrhau bod rhifau cyswllt yr asiantaethau cymorth priodol yn cael eu cynnwys.


4.14 Roedd cyflwyniad y llythyrau ar y cyfan yn dda ym mhob achos namyn wyth. Roedd problemau'n cynnwys defnydd anghyson o ffontiau gwahanol yng nghorff y llythyr a gwallau teipograffyddol. Ar yr olwg gyntaf, nid yw hyn yn ymddangos yn bwysig, ond gall diffyg sylw at fanylion dynnu sylw'r darlennydd (y dioddefwr) oddi ar y neges a rhoi'r argraff

(anghywir) nad yw'r achos yn cael y gofal y mae'n ei haeddu. Fodd bynnag, roedd pob un o'r llythyrau wedi eu teipio ar bapur pennawd y CPS gyda'r pennawd "Preifat" arnynt yn unol â'r canllawiau. Dylai gwaith monitro sicrwydd ansawdd yr Ardal gynnwys sicrhau bod problemau wrth gyflwyno'r llythyrau yn cael eu nodi a bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Cydymffurfio ag amseroldeb llythyrau DCV

4.15 Mae hon yn agwedd ar berfformiad y mae Cymru wedi canolbwyntio arni a dengys y sampl o ffeiliau ei fod mewn rhai pethau wedi cyflawni lefel dda o gydymffurfiaeth. Roedd problem o ran cofnodi'n gywir ar CMS mewn un uned. Fodd bynnag, o gymharu â'r sampl o ffeiliau a archwiliwyd fel rhan o ACEP yn 2012, mae perfformiad De Cymru wedi gwella ond mae un Gwent wedi dirywio. Yn yr arolygiad hwn canfuwyd bod amseroldeb De Cymru yn 85.7 y cant o gymharu ag 82.0 y cant yn 2012; i'r gwrthwyneb, dirywiodd perfformiad Gwent o 87.0 y cant yn 2012 i 73.0 y cant.

4.16 Mewn 32 o'r 60 o achosion a archwiliwyd, roedd y llythyr DCV wedi cael ei anfon ar y diwrnod y gwnaed y penderfyniad neu'r diwrnod canlynol. Roedd perfformiad yn well pan anfonwyd llythyr o fewn diwrnod i'r penderfyniad yn yr achosion hynny lle nad oedd gorfodaeth i wneud hynny. Yn ein barn ni mae arfer y cyfreithiwr, a wnaeth y penderfyniad i ollwng y cyhuddiadau neu eu newid yn sylweddol, o ysgrifennu llythyr DCV ar adeg y penderfyniad yn cyfrannu at sicrhau bod llythyrau'n cael eu hanfon o fewn y dyddiad targed.



4.17 Roedd 29 o achosion yn y sampl y nodwyd eu bod yn cynnwys dioddefwr agored i niwed neu a oedd yn cael ei fygwth. O blith y rhain roedd 13 (44.8 y cant) wedi cael eu hanfon o fewn un diwrnod gwaith i'r penderfyniad yn unol â'r targed. Mewn wyth achos (27.6 y cant) roedd y llythyrau wedi cael eu hanfon yn hwyr yn amrywio o ddiwrnod ar ôl y targed i 24 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad. Yn yr wyth achos a oedd yn weddill (27.6 y cant), nid oedd llythyr wedi cael ei anfon. Mewn un, nodwyd ar CMS fod y dioddefwr wedi siarad yn y llys ond mewn eraill nid oedd unrhyw esboniad pam nad oedd llythyr wedi cael ei anfon.

4.18 Roedd perfformiad yn yr achosion a oedd yn weddill nad oeddent yn ymwneud â dioddefwr agored i niwed neu a oedd yn cael ei fygwth yn llawer gwell. Mewn 24 (77.4 y cant) anfonwyd y llythyr o fewn y targed o bum niwrnod ac mewn 19 o achosion fe'i hanfonwyd ar y diwrnod neu'r diwrnod ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Anfonwyd pedwar yn hwyr ac mewn tri achos nid oedd unrhyw lythyr DVC ar CMS.

4.19 Er bod amseroldeb llythyrau yn y rhan fwyaf o achosion wedi cael eu cofnodi'n gywir ar CMS, cofnodwyd deg yn anghywir, gan ddangos bod llythyrau wedi cael eu hanfon yn gynt nag y cawsant eu hanfon mewn gwirionedd. Roedd un uned yn arbennig yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cofnodi anghywir hwn y mae angen i'r Ardal fynd i'r afael â hi drwy gynnal archwiliad priodol.

Nodi achosion lle mae angen llythyr DCV

4.20 Yn y sampl o ffeiliau roedd 11 o achosion allan o 60 (18.3 y cant) lle nad anfonwyd llythyr ar ôl i'r cyhuddiadau gael eu newid yn sylweddol neu ar ôl iddynt gael eu gollwng. Mae hyn yn cymharu'n dda â'r 27.1 y cant a ganfuwyd yn ein hadroddiad yn 2009. Mewn chwech allan o'r 11 ni roddwyd unrhyw esboniad ar CMS pam nad oedd angen anfon llythyr at y dioddefwr.

4.21 Gan fod y llythyrau DCV yn cael eu hysgrifennu fel mater o drefn gan y cyfreithiwr a oedd yn gwneud y penderfyniad i ollwng y cyhuddiadau neu eu newid yn sylweddol ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad, roedd yn fwy tebygol y byddent yn anghofio'r angen am lythyr. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn perthynas â dioddefwyr agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth yn peri pryder. Canfu adroddiad cenedlaethol 2009 nad oedd llythyrau wedi cael eu hanfon i'r categori hwn o ddiodesfwr mewn 19.0 y cant o'r ffeiliau. Yn yr adolygiad hwn nid anfonwyd llythyr at 27.6 y cant o ddiodesfwr agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth. Mae hyn yn peri pryder oherwydd ymddengys nad yw'r diodesfwr hyn sy'n arbennig o agored i niwed yn cael esboniad am y penderfyniad. Mewn achosion lle nad ystyriwyd bod y diodesfwr yn agored i niwed nac yn cael ei fygwth, dim ond

tri (9.7 y cant) achos oedd lle na chanfuwyd unrhyw lythyrau. Mae angen i'r Ardal fynd i'r afael â'r mater hwn a sicrhau y caiff llythyr ei roi i ddiodefwyr agored i niwed a rhai sy'n cael eu bygwth neu gofnodi'r rheswm pam na chafodd un ei anfon.

Cynnig cyfarfodydd i esbonio'r penderfyniad i ddiodefwyr

4.22 Mewn mathau penodol o achos¹², dylai'r CPS gynnig cwrdd â'r diodefwyr neu ei deulu i roi esboniad pellach am y rheswm dros y penderfyniad i newid cyhuddiad yn sylweddol neu benderfynu peidio â bwrw ymlaen ag achos. Gellir cynnig cyfarfod hefyd, yn ôl disgrisiwn yr erlynydd, mewn mathau eraill o achosion os teimlir bod hynny'n briodol.

4.23 Archwiliwyd sampl o 20 o ffeiliau lle y dylid bod wedi cynnig cyfarfod. Dim ond naw achos oedd yn cynnwys un. O'r gweddill, ni wnaed cynnig yn y llythyr mewn wyth achos ac mewn tri achos ni ellid dod o hyd i lythyr DCV. Roedd perfformiad De Cymru yn hyn o beth yn amlwg yn waeth na Gwent. Dim ond mewn dau o'r wyth llythyr a welwyd y cynigiodd De Cymru gyfarfod. Mae perfformiad yn gyffredinol o ran cynnig cyfarfod (52.9 y cant o achosion priodol) yn waeth na chanlyniadau adroddiad 2009, a nododd fod cyfarfodydd ar gyfartaledd wedi cael eu cynnig mewn 58.3 y cant o'r achosion DCV perthnasol. Dylai'r Ardal sicrhau bod cyfarfod yn cael ei gynnig i ddiodefwyr neu i deulu'r diodefwyr ym mhob achos perthnasol.

¹² Dylid cynnig cyfarfod mewn achosion sy'n ymwneud â marwolaeth; cam-drin plant; troseddau rhywiol; troseddau gwaethygedig ar sail hil neu grefydd; achosion yn ymwneud â throedd yn erbyn person hŷn; achosion ag elfen homoffobig/trawsffobig neu droseddau a waethygir gan elyniaeth yn seiliedig ar anabledd y diodefwyr.

4.24 Mewn saith o'r naw llythyr lle y cynigwyd cyfarfod, roedd diben y cyfarfod wedi cael ei nodi er mwyn sicrhau bod y diodefwyr yn ymwybodol na allai'r penderfyniad i newid y cyhuddiadau neu eu gollwng gael ei newid a bod y cyfarfod yn gyfle i'r diodefwyr gael esboniad pellach/meithrin dealltwriaeth o pam y gwnaed y penderfyniad. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod ar CMS fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r diodefwyr mewn unrhyw achos a archwiliwyd. Dywedwyd wrthym na chaiff cyfarfodydd eu cofnodi fel arfer ar CMS ond bod disgwyl i gyfreithwyr gadw cofnod. Os yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal, dylent gael eu cofnodi ar sgrîn cod y diodefwyr yn CMS a dylai nodiadau o'r cyfarfod gael eu cadw ar y system.

4.25 Gellir cynnig cyfarfodydd i ddiodefwyr mewn achosion heblaw'r mathau hynny lle y mae'n orfodol os teimlir bod hynny'n briodol. Canfuwyd mai felly yr oedd gydag un achos o drais domestig, er nad esboniwyd pam y credwyd ei fod yn briodol ac nid oedd dim ar y ffeil i ddangos bod y cynnig wedi'i dderbyn.

Argymhelliad

Dylai'r Ardal gynnal yr archwiliadau canlynol:

- Sefydlu a yw amseroldeb llythyrau DCV yn cael ei nodi'n gywir ar y system rheoli achosion
- Adolygu a yw'n cydymffurfio â'r broses o anfon llythyrau DCV at ddiodefwyr agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth
- Adolygu a yw'n cydymffurfio â'r broses o gynnig cyfarfodydd i ddiodefwyr neu deuluoedd mewn achosion priodol





5 Cymorth i ddioddefwyr a thystion yn y llys

5.1 Canfu ein harolygiad fod dioddefwyr a thystion, ar y cyfan, yn cael gwybodaeth briodol - yn bennaf gan yr Unedau Gofal Tystion - gan gynnwys cymorth sydd ar gael iddynt, rhoi tystiolaeth yn y llys ac, yn fwy cyffredinol, gwybodaeth am y broses yn y llys. Mae'r Uned Gofal Tystion yn gyfrifol am atgyfeirio dioddefwyr neu dystion agored i niwed a rhai sy'n cael eu bygwth at yr asiantaethau cymorth priodol sydd yn y sefyllfa orau i'w helpu gyda'u hanghenion. Yn amlach na pheidio cafodd y rhan fwyaf eu hatgyfeirio at yr asiantaeth Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion. Mae'r system yn gweithio'n arbennig o dda yng Ngwent lle mae aelod o staff y Gwasanaeth Tystion yn rhannu swyddi â'r Uned Gofal Tystion. Mae hyn yn golygu y gellir delio'n gyflymach ag unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â chymorth.

5.2 Mae nifer yr atgyfeiriadau a gynigir gan y CPS a'r Unedau Gofal Tystion i'r asiantaeth Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2011-12 a 2012-13. Yn genedlaethol cafwyd gostyngiad o 43.98 y cant i 21.27, yng Ngwent 47.36 y cant i 22.31 ac yn Ne Cymru 41.32 y cant i 16.46.

5.3 Er bod nifer yr atgyfeiriadau wedi lleihau yn 2012-13 o gymharu â 2011-12, mae'r ganran a dderbynnir fel canran o'r rhai y cynigiwyd hyn iddynt wedi cynyddu'n sylweddol, gan awgrymu y gwneir defnydd mwy priodol o atgyfeirio.



Addewid yr Erlynwyr

5.4 Mae Addewid yr Erlynwyr¹³, a gyflwynwyd yn 2005, yn addewid deg pwynt i bob erlynnydd (nid y rhai o'r CPS yn unig) sy'n disgrifio'r math o wasanaeth y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan erlynwyr. Mae nifer o ffactorau mewn perthynas â'r Addewid y dylai erlynwyr y CPS eu hystyried wrth ddelio â dioddefwyr a thystion. Mae'r rhain yn cynnwys: gofyn am farn dioddefwr wrth ystyried ple; hysbysu'r dioddefwr pan dynnir cyhuddiad yn ôl, pan benderfynir peidio â pharhau ag achos neu ei newid yn sylweddol (a gwmpesir ym mhennod 4); asesu anghenion (mesurau arbennig); a rhoi'r newyddion diweddaraf i ddioddefwyr yn gyson.

5.5 Yn ein Rhaglen Archwilio Gwaith Achos Blynyddol (ACEP) yn 2012 gwnaethom archwilio ffeiliau Gwent a De Cymru er mwyn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â Chod y Dioddefwyr, Addewid yr Erlynwyr a chanllawiau polisi eraill ar drin tystion. O blith y 42 o achosion yng Ngwent lle roedd hyn yn gymwys, gwnaeth 41 allan o 42 o achosion (97.6 y cant) gydymffurfio â'r polisi a'r canllawiau, a dim ond un a fethodd â chyrraedd y safon. Yn Ne Cymru gwnaeth 91 allan o 94 o achosion (96.8 y cant) gyrraedd y safon yn llwyr a gwnaeth y tri arall hynny'n rhannol.

5.6 Gwnaeth yr archwiliad o'r ffeiliau ystyried a oedd barn y dioddefwr wedi cael ei hystyried wrth benderfynu peidio â pharhau ag un neu fwy o gyhuddiadau, derbyn trosedd lai neu dderbyn achos o bledio'n euog yn seiliedig

ar fersiwn o ddigwyddiadau nad yw'n gyson efallai ag un y dioddefwr. O blith y chwe chais cymwys yng Ngwent, roedd pump (83.3 y cant) wedi ystyried barn y dioddefwr. Yn Ne Cymru roedd 18 o achosion cymwys ac o blith y rhain gofynnwyd i 70.0 y cant o ddioddefwyr am eu barn. Gwnaeth Gwent a De Cymru berfformio'n sylweddol well na pherfformiad cyfartalog CPS Cymru (58.3 y cant) a Chymru a Lloegr gyda'i glydd (42.5 y cant).

5.7 Ffactor arall yn yr Addewid yw hyrwyddo cysylltiadau yn y llys. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r newyddion diweddaraf am hynt achos i ddioddefwyr yn gyson, eu helpu yn y llys i brocio'r cof o'u datganiad ysgrifenedig neu ddatganiad fideo, ac ateb cwestiynau ar weithdrefnau a phrosesau'r llys. Ni wnaethom fynychu'r llys fel sylwedydd yn ystod yr arolygiad hwn ond cawsom ein hysbysu, er bod dioddefwyr a thystion ar adegau yn cael eu cyfarch gan erlynwyr yn y llys, yng Ngwent a De Cymru, fod hyn yn fwy tebygol o gael ei wneud gan y gweithiwr achos os oedd un ar gael. Fodd bynnag, fel y disgwyliid, yn amlach na pheidio swyddogion y Gwasanaeth Tystion oedd yn cael y cyswllt mwyaf â dioddefwyr a thystion yn y llys, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn gyson.

5.8 Mae'r cymorth tameidiog a roddir i'r tyst yn y llys yn peri pryder penodol a dylai'r Ardal sicrhau ei hun fod proses effeithiol ac integredig ar waith i ddioddefwyr a thystion pan fyddant yn mynd i'r llys.

¹³ Addewid yr Erlynwyr yw datganiad polisi cyhoeddus y CPS ar ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr. www.cps.gov.uk/news/articles/prosecutor_pledge211005/index.html

Datganiad personol dioddefwyr

5.9 Dylai dioddefwyr troseddau gael y cyfle i roi datganiad personol dioddefwyr (VPS) yn nodi sut y mae'r drosedd wedi effeithio arnynt a dylai'r rhain gael eu codi yn y llys gan yr erlynydd, ynghyd ag unrhyw ystyriaethau o ran iawndal. Ar ddechrau'r broses hon, dylai'r heddlu ystyried cynnwys VPS yn natganiad gwreiddiol y dioddefwr. Fodd bynnag, os na chafwyd un ar y dechrau mae dyletswydd o hyd i gadarnhau a oes angen VPS yn yr achos, oherwydd dim ond ar gam diweddarach y bydd effeithiau'r drosedd o bosibl yn effeithio ar y dioddefwr. Datgelodd tystiolaeth o'n cyfweiliadau â'r CPS a staff gofal tystion nad oedd unrhyw enghreifftiau o'r CPS yn gofyn i'r heddlu gael VPS lle nad oedd wedi'i gynnwys mewn datganiad dioddefwyr. Gan nad oes gofyniad, na chyfleuster, i gael gwybodaeth o'r fath nid yw'n bosibl cadarnhau pa geisiadau a wna'r CPS i'r heddlu er mwyn cael VPS, neu a yw'r dioddefwr wedi gwrthod un.

5.10 Er bod nifer y datganiadau VPS wedi'u cofnodi yn y gorffennol, nid yw'r wybodaeth hon rwyach yn cael ei chadw gan nad oes maes gorfodol ar CMS i gofnodi a wnaed datganiad. Felly mae'n anodd asesu a wnaed datganiad perthnasol mewn unrhyw achos penodol. Nid oedd yr Ardal ychwaith yn gallu nodi unrhyw fesur o gamau amrywiol datganiad personol dioddefwr, gan gynnwys: p'un a oedd un yn cael ei ystyried gan yr heddlu; os nad oedd yr heddlu wedi cael VPS p'un a wnaeth y CPS ystyried gofyn am un; cofnodi bod datganiad wedi'i wneud; a chofnodi a oedd VPS wedi ei ddarllen yn y llys mewn gwirionedd.

5.11 Mae Unedau Gofal Tystion hefyd yn nodi rhwystredigaeth am na allant roi unrhyw sicrwydd i dioddefwyr ynghylch p'un a gaiff eu VPS ei ddarllen neu a yw wedi cael ei ddarllen yn uchel gan erlynydd y CPS yn y llys, neu a gafodd unrhyw ddylanwad ar y ddedfryd. Gall cymryd datganiad personol dioddefwr a'i ddarllen yn y llys ym mhresenoldeb y cyhuddedig rymuso rhywun, drwy roi llais i dioddefwyr. Mae'n bwysig felly bod ffordd o ddilysu p'un a wnaed hyn.

5.12 Tynnodd Adroddiad Cymorth i Ddioddefwyr¹⁴ *Summing Up; a strategic audit of the criminal justice system*, a gyhoeddwyd yn 2011, sylw at y ffaith fod un o'r lefelau gwaethaf o gynigion VPS yng Ngwent a De Cymru. Dim ond un o bob tri dioddefwr a oedd yn cael y cyfle hwn. Mae'r Trefniadau Ardal presennol yn golygu nad yw'n bosibl penderfynu a yw'r sefyllfa hon wedi gwella neu waethygu.

5.13 Er y dylid ymdrin â rhai o'r gwendidau hyn ar lefel genedlaethol, rydym yn gofidio nad oedd gan yr Ardal unrhyw brosesau archwilio na sicrhau ansawdd o ran y mater pwysig hwn.


Argymhelliad

Dylai'r Ardal adolygu ei systemau er mwyn ei galluogi i ddarparu mesurau ac effeithiolrwydd gwell cynllun datganiadau personol dioddefwyr.

5.14 Er gwaetha'r gwendidau o ran y cynllun VPS, datgelodd ein harchwiliad o ffeiliau ACEP yn 2012, lle y bo'n briodol, fod gorchmynion a geisiwyd adeg dedfrydu i ddiwallu anghenion y dioddefwr, megis iawndal, gorchmynion atal ac ati wedi'u gwneud ym mhob un o'r achosion cymwys a archwiliwyd.

Y Gwasanaeth Tystion

5.15 Mae swyddogion Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Tystion yng Ngwent a De Cymru yn rhoi gwasanaeth gwerthfawr megis darparu'r datganiad yn y llys i'r tystion, edrych ar y cysylltiadau fideo a ddefnyddir ar gyfer mesurau arbennig, a threfnu ymweliadau cyn treial ar gyfer dioddefwyr a thystion. Yn ystod 2011-12 roedd nifer yr ymweliadau cyn treial a dderbyniwyd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (26.02 y cant) a'r ffigur ar gyfer Gwent oedd 20.81 y cant ac roedd De Cymru yn sylweddol is sef 16.49. Er bod Gwent wedi gwella ychydig yn 2012-13 (21.26 y cant), mae ffigurau De Cymru a rhai cenedlaethol wedi gostwng, y naill i 13.24 a'r llall i 17.13.



Cyfleusterau yn y llys

5.16 Mae cyfleusterau yn y llys yn amrywio i ddioddefwyr a thystion. O Lys y Goron Caerdydd, sy'n arbennig o dda gydag awyrgylch 'ystafell ffrynt/parlwr', i'r Llys leuenctid yng Nghaerdydd lle mae nifer yr ystafelloedd wedi lleihau, sy'n golygu bod yn rhaid i bobl ifanc bellach rannu ystafell ag oedolion. Er bod y ffordd y caiff dioddefwyr a thystion eu trin yn y llys yn dda ar y cyfan, cawsom ein hysbysu drwy gyfweiliadau â'r Uned Gofal Tystion a Chymorth i Ddioddefwyr fod rhai enghreifftiau gwael o hyd, megis dioddefwyr a thystion yn cael eu gadael yn y llys drwy'r dydd neu achosion yn cael eu trosglwyddo i adeilad llys arall gyda llai na 24 awr o rybudd. Mae hyn yn broblem yn enwedig yng Nghymru oherwydd y pellter daearyddol rhwng y llysoedd.

5.17 Mae'r Ardal yn cefnogi cyfleuster partneriaeth ar y cyd lle mae tystion yn rhoi eu tystiolaeth drwy gyswllt fideo i'r llys o safle arall. Mae hyn yn creu amgylchedd diogel ac yn golygu nad oes gan dystion daith hir i'r llys. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn rheoli'r adeilad, yn darparu datganiadau ac yn gweinyddu llwon, tra bod erlynwyr yn siarad â'r tyst cyn dechrau'r achos drwy gyfrwng cyswllt fideo os oes angen.

Arfer da

Mae defnyddio cysylltiadau byw â'r llys yn darparu amgylchedd diogel a chyfleus i ddioddefwyr a thystion sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell.

6 Perfformiad a threfniadau partneriaeth

6.1 Mae CPS Cymru yn ymwneud ag amrywiaeth o drefniadau rhyngasiantaethol a chyfarfodydd wedi'u hanelu at wella profiad dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys Cymorth i Ddioddefwyr, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS), yr heddlu, awdurdodau lleol, a Chynulliad Cymru. Mae asiantaethau wedi cytuno ar femoranda cyd-ddealltwriaeth neu brotocolau amrywiol, gan gynnwys ymdrin â dioddefwyr a thystion mewn achosion arbenigol a diogelu staff y GIG rhag trais.

6.2 Mae gwaith sylweddol eisoes wedi ei gynnal mewn achosion lle mae gan ddiodeffwr neu dyst anghenion penodol o ganlyniad i faterion iechyd meddwl. Mae'r Ardal wedi nodi nifer o gyfryngwyr ar gyfer achosion o'r fath ac wedi rhoi hyfforddiant i erlynwyr ar bethau y dylent fod yn ymwybodol ohonynt. Un enghraifft yw y gall meddyginiaeth benodol wneud tystion yn gysglyd ac yn fwy dryslyd yn y bore, felly gellir eu galw i roi tystiolaeth yn y prynhawn yn lle'r bore.

6.3 Mae'r CPS hefyd yn helpu i arwain dull partneriaeth o ymdrin â masnachu pobl¹⁵ sydd wedi cynnwys gwneuthurwyr penderfyniadau o sefydliadau statudol ac anstatudol ac o'r sector gwirfoddol. Y nodau yw darparu sail dystiolaeth ar raddfa'r broblem, rhannu arfer da a datblygu 'llwybr gofal i ddiodeffwr' wedi'i anelu at roi'r cymorth gorau posibl i ddiodeffwyr.

¹⁵ Cydnabyddir yn gyffredinol na chaiff achosion o fasnachu pobl eu cofnodi yn ddigonol a'u bod yn ym aml yn 'drosedd gudd'. Mae'n cynnwys camfanteisio'n rhywiol, camfanteisio ar blant a gweithwyr, caethwasanaeth domestig a chasglu meinwe/organau pobl.

6.4 Ers i'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR) ddod i ben, ac ers i dargedau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol gael eu diddymu ac i fyrddau cyfiawnder troseddol lleol (LCJBs) gollu cyllid yn ganolog, mae nifer o ardaloedd y CPS a'u partneriaid wedi ymdrechu'n galed i roi dulliau cadarn ar waith i fesur a sicrhau perfformiad ar y cyd o ran materion diodeffwyr a thystion. Mae Gwent a De Cymru wedi llwyddo i barhau i weithredu LCJBs ac, er nad oes unrhyw is-grwpiau o ddiodeffwyr a thystion, mae'r materion hyn yn parhau i gael eu trafod ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Er ei bod yn amlwg bod pob asiantaeth yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth i ddiodeffwyr a thystion, mynegwyd pryderon gan y CPS a'i bartneriaid fod strwythurau llywodraethu cyffredinol yng Nghymru yn dameidiog ac nad oes ganddynt gyfeiriad strategol yn genedlaethol.

6.5 Mae Grŵp Cyflawni Uned Gofal Tystion yr Ardal yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy ddwyn ynghyd y CPS, yr heddlu, Unedau Gofal Tystion, HMCTS, y Gwasanaeth Tystion a'r gwasanaeth prawf, ac yn cyfarfod bob chwarter. Rôl bennaf y Grŵp yw cefnogi'r Unedau Gofal Tystion i roi cymorth i ddiodeffwyr a thystion a monitro cydymffurfiaeth â Chod y Dioddefwyr a'r Siarter i Dystion. Caiff y cyfarfod ei gadeirio gan gynrychiolydd y CPS, sef yr Eiriolwr dros Ddiodeffwyr yn yr Ardal hefyd. Mae'r Grŵp yn archwilio perfformiad, materion hyfforddi, codi ymwybyddiaeth, prosiectau a gweithgareddau, a risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg. Mae Cymorth i Ddiodeffwyr hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r heddlu a'r CPS i drafod materion tebyg ond mwy gweithredol.


6.6 Mae gan y CPS nifer o fesurau sy'n asesu'r ffordd y mae'n ymdrin â materion dioddefwyr a thystion. Y mater pwysicaf yw canlyniad llwyddiannus achosion. Mae De Cymru a Gwent yn gallu cynhyrchu data perfformiad manwl ar gyfer y cyfarfodydd partneriaeth amrywiol sydd, ynghyd â chanlyniadau perfformiad gan asiantaethau eraill, yn ffurfio cyfres gynhwysfawr o ddata ar ddiodefwyr a thystion. Fodd bynnag, heb fesurau perfformiad wedi'u hyrwyddo o'r canol i asesu effaith gwaith partneriaeth, mae'n anodd gwerthuso a yw partneriaid yn cydweithio'n effeithiol ac yn effeithlon.

6.7 Mae CPS Cymru hefyd wedi sefydlu Bwrdd Hyder, gan gadeiryddiaeth Prif Erlynydd y Goron (CCP), y mae uwch aelodau staff y CPS yn ei fynychu. Mae'r Bwrdd yn trafod pob math o faterion yn ymwneud â dioddefwyr a'r gymuned gan gynnwys: trais yn erbyn menywod a merched; troseddau casineb anabled; Hawl Dioddefwyr i Adolygiad; Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr; adborth gan banelau craffu lleol; materion cymunedol a rhai eraill sy'n gysylltiedig â dioddefwyr. Codir camau gweithredu gan y CCP yn y fforwm hwn ac fe'u trafodir wedyn mewn cyfarfodydd dilynol. Mae'r fforwm yn ffordd dda o asesu materion dioddefwyr ledled Cymru a chasglu arfer da i'w ledaenu.

Unedau Gofal Tystion

6.8 Mae gan Unedau Gofal Tystion yn Ne Cymru a Gwent gymysgedd o staff yr heddlu a staff y CPS. Mae'r unedau yn darparu cyswllt hanfodol i dystion a dioddefwyr y mae'n ofynnol iddynt roi tystiolaeth mewn achosion a gyflwynir gan y CPS. Diben y cymorth a ddarperir gan yr Unedau Gofal Tystion yw gwella profiad tystion yn ogystal â gwella lefel presenoldeb tystion yn y llys, gan leihau nifer y treialon aneffeithiol a threialon chwâl. Mae cyfraddau presenoldeb tystion yn Ne Cymru a Gwent wedi gwella yn ystod 2012-13.

6.9 Mae'n glir nad yw gwaith yr Uned Gofal Tystion yn golygu rhybuddio tystion i fynychu'r llys yn unig. Yn aml, mewn achosion arbennig o ddifrifol, gall cyfraniad ac ymrwymiad staff Unedau Gofal Tystion arwain at ganlyniad cadarnhaol i'r achos, na chaiff ei gydnabod bob tro. Mae'r astudiaeth achos isod, nad yw'n nodweddiadol, yn dangos sut y gall gwaith yr Uned Gofal Tystion a swyddogion gofal tystion unigol gael effaith sylweddol ar ganlyniadau achosion.



6.10 Mae cyfweiliadau ac arolygon staff Unedau Gofal Tystion yn dangos ar y cyfan eu bod yn teimlo ar wahân i swyddfeydd lleol y CPS a bod datgysylltiad rhyngddynt hwy a chyfreithwyr. Prin yw'r achosion lle y gwelir uwch aelodau staff y CPS ac y cynhelir cyfarfodydd i drafod materion dioddefwyr a thystion. Teimlir rhwystredigaeth am fod adolygiadau hwyr gan y CPS yn rhoi pwysau ar Unedau Gofal Tystion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr a thystion heb wybod yn llwyr beth yw statws yr erlyniad,

gan gynnwys p'un a roddwyd mesurau arbennig ac a oes angen i dystion fynd i'r llys. Cawsom ein hysbysu am nifer o faterion a ddylai fod wedi cael eu datrys yn gyflym gyda'r CPS a bod rhai pryderon yn faterion sydd wedi codi o'r blaen.

Argymhelliad

Dylai rheolwyr CPS gyflwyno fforwm rheolaidd gydag Unedau Gofal Tystion er mwyn trafod materion a phryderon i ddarparu gwell gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion.

Astudiaeth achos

Cyhuddwyd dau ddiffynnydd o lofruddio ac ymgais i lofruddio. Roedd yr achos yn gymhleth ac yn cynnwys sawl tyst. Ar ddiwedd y treial 20 wythnos cafodd y ddau ddiffynnydd ddedfryd o garchar am oes.

Daeth y swyddog gofal tystion (WCO) y neilltuwyd yr achos iddo yn bwynt cyswllt i ddioddefwyr a thystion yn ystod yr achos, gan sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ei hynt drwy eu dull cyswllt dewisol, gan roi'r canlyniad iddynt ar ddiwedd yr achos, a diolch iddynt am eu hamser a'u cyfraniad.

At ei gilydd, ymdriniodd y WCO â 313 o dystion sifil, proffesiynol a thystion yr heddlu, gan gynnal asesiadau manwl o anghenion ar gyfer pob un o'r tystion sifil, gan sicrhau bod y lefel gywir o gymorth yn cael ei rhoi. Fodd bynnag, gwnaeth heriau amrywiol effeithio ar yr achos hefyd yn cynnwys y canlynol:

- Cafodd dau ddyddiad treial eu canslo oherwydd anawsterau gyda rheithwyr a chyfreithwyr yr amddiffyniad
- Newid y lleoliad o Lys y Goron Caerdydd i Lys y Goron Abertawe
- Bu'n rhaid trefnu teithio a llety i dystion a oedd yn teithio pellteroedd hir i gyrraedd y llys
- Roedd angen sicrhau darpariaethau er mwyn i dystion a oedd yn blant fynychu
- Mesurau arbenig i ddiogelu enwau tystion oherwydd natur y cyhuddiadau yn erbyn y diffynnyddion
- Roedd angen cymorth a sicrwydd ychwanegol ar lawer o dystion gan eu bod yn ofni ymosodiadau dial
- Helpu prif uned troseddau yr heddlu i ailgartrefu un tyst allweddol, gan sicrhau bod y tyst yn cael cymorth a sicrwydd ychwanegol
- Orlhain tystion heb gartref sefydlog
- Cyflwyno tystion o'r carchar

Drwy gydol yr achos, bu'n rhaid i'r WCO lunio a chynnal cydberthynas waith ragorol ag uwch swyddog ymchwilio yr heddlu, swyddogion cyswllt teuluol yr heddlu a gweithwyr achos y CPS, gan sicrhau bod tystion (gan gynnwys rhai o'r heddlu) yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ac yn ysgrifenedig ar ôl bob gwrandawriad ac ar adegau rheolaidd.



Atodiad A: Methodoleg

Roedd dau ddiben cyffredinol i'r arolygiad:

1 Asesu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth a phrosesau, systemau a gwiriadau ansawdd y CPS sy'n gysylltiedig â gwella profiadau dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol yng Ngwent a De Cymru.

2 Nodi arfer da ar gyfer ei ledaenu'n ehangach o fewn y CPS.

Nid arolygwyd asiantaethau eraill ond ystyriwyd eu barn ar ddull partneriaeth o ymdrin â materion dioddefwyr a thystion a chasglwyd eu barn ar gyfranogiad y CPS ym mhrofiad cyffredinol y dioddefwr a'r tyst yn y broses cyfiawnder troseddol. Nid oedd archwiliad o'r fframwaith llywodraethu cenedlaethol yn rhan o'r adolygiad hwn ond nodir sylwadau lle y bo'n briodol. Am fod y rhan fwyaf o benderfyniadau cyn-cyhuddo bellach yn cael eu gwneud gan CPS Direct, ac nid gan Ardal y CPS ei hun, dim ond hynt achosion dioddefwyr a thystion ar ôl cyhuddo a werthuswyd gennym. Ein prif amcanion oedd gwerthuso:

- Ansawdd ac amseroldeb llythyrau DCV
- Effeithiolrwydd nodi dioddefwyr yr oedd angen llythyr DCV arnynt
- P'un a gydymffurfiwyd â Chod y Dioddefwyr, Addewid yr Erlynwyr ac unrhyw ganllawiau polisi eraill ar drin tystion
- P'un a geisiwyd y mesurau arbennig cywir gan yr erlyniad
- A oedd barn y dioddefwr yn cael ei hystyried wrth benderfynu peidio â pharhau ag un cyhuddiad neu fwy, derbyn ple llai neu newid cyhuddiad yn sylweddol
- Y defnydd o ddatganiad personol dioddefwr/dioddefwyr

- P'un a geisir gorchmynion priodol adeg dedfrydu
- P'un a gynigiwyd cyfarfodydd i ddiodefwyr neu eu teuluoedd mewn achosion priodol
- Y seilwaith rheoli, yn fewnol ac allanol, i gefnogi materion dioddefwyr a thystion

Methodoleg benodol

Cynhaliodd yr arolygiad ymweliadau maes â sawl un o swyddfeydd y CPS/Unedau Gofal Tystion yn Ne Cymru a Gwent. Cynhaliwyd ymweliadau gennym ag ystod eang o staff gan gynnwys uwch reolwyr, cyfreithwyr a staff cymorth. Gwnaethom hefyd gyfwrdd ag ystod eang o staff a rheolwyr gofal tystion.

Gwnaethom ddatblygu holiadur a anfonwyd at bob swyddog gofal tystion gyda'r heddlu yn gofyn am eu barn ar amrywiaeth o bethau.

Archwiliwyd 60 o lythyrau a anfonwyd at ddiodefwyr a oedd yn cydymffurfio â'r cynllun Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr ac edrychwyd ar amseroldeb y system DVC a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r system honno. Archwiliwyd 30 o ffeiliau cymwys eraill lle y dylai'r CPS fod wedi cyfarfod â'r diodefwyr neu aelodau o deulu'r ymadawedig.

Archwiliwyd 50 o ffeiliau achosion gennym o Dde Cymru a oedd yn rhan o'n Rhaglen Archwilio Gwaith Achos Blynyddol (ACEP) ar gyfer 2013.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â'r heddlu a Chymorth i Dioddefwyr.

Dadansoddwyd yr holl ddogfennaeth ac adolygwyd systemau gweithredol.



Atodiad B: Rhestr termau

ACEP

Rhaglen Archwilio Gwaith Achos Blynyddol, wedi'i chynnal gan HMCPSP ar waith achos y CPS.

Addewid yr Erlynwyr

Addewid deg pwynt a gyflwynwyd ym mis Hydref 2005 sy'n rhoi manylion am lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ei disgwyl gan erlynwyr. Mae'r Addewid yn ymwneud yn bennaf â rôl yr erlynydd yn y llys.

Arfer da

Agwedd ar berfformiad lle y mae'r Arolygiaeth nid yn unig yn cynnig sylwadau ffafriol, ond lle y mae o'r farn ei bod yn adlewyrchu ffordd o drin gwaith a ddatblygwyd gan Ardal a allai, gan ei addasu'n briodol i ddiwallu anghenion lleol, gael ei gymeradwyo fel arfer cenedlaethol.

Bwrdd cyfiawnder troseddol lleol (LCJB)

Sefydlwyd y rhain i wella'r broses leol o gyflawni cyfiawnder troseddol. Mae aelodau'n cynnwys penaethiaid y prif asiantaethau cyfiawnder troseddol ac mewn rhai ardaloedd, bartneriaid cyfiawnder troseddol eraill.

Cod Erlynwyr y Goron (y Cod)

Y ddogfen gyhoeddus sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau erlyn. Mae gan erlynwyr y goron bŵer y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i benderfynu ar yr achosion a ddirprwyir, ond mae'n rhaid iddynt arfer y pŵer hwnnw yn unol â'r Cod a'i brawf dau gam - y cam tystiolaethol a'r cam budd y cyhoedd. Dim ond, yn gyntaf, os oes digon o dystiolaeth er mwyn sicrhau tebygolrwydd realistig y ceir collfarn ac, yn ail, os oes angen yr erlyniad er budd y cyhoedd y dylai achosion fynd rhagddynt.

Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

(Cod y Dioddefwyr)

Cyflwynwyd hwn ym mis Ebrill 2006; mae'n nodi'r lefel ofynnol o wasanaeth i ddiodesfwyr ac yn gosod rhwymedigaethau ar 11 o sefydliadau gan gynnwys yr heddlu, y CPS, llysoedd, timau troseddwr ifanc, y gwasanaeth prawf a charchardai. Mae'r Cod hefyd yn mynnu lefel well o wasanaeth i ddiodesfwyr a thystion sy'n agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth. Roedd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR) fel yr oedd ar y pryd. Mewn sawl achos mae'r broses o fodloni gofynion Dim Tyst Dim Cyfiawnder a'r broses o fodloni'r rhai a geir yn y Cod wedi cyd-redeg.

CPS Direct (CPSD)

Cynllun yw hwn i gefnogi penderfyniadau a wneir gan yr Ardaloedd o dan y system cyhuddo. Mae cyfreithwyr ar gael ar un rhif ffôn cenedlaethol y tu allan i oriau swyddfa arferol er mwyn sicrhau y gellir cael cyngor ar unrhyw adeg. Mae ar gael i bob Ardal.

Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV)

Cyflwynwyd DCV yn 2001 gan y CPS. O dan y cynllun hwn mae'r CPS yn ymrwmo i roi esboniad i ddiodesfwyr lle y caiff cyhuddiad ei ollwng neu ei leihau'n sylweddol neu ei gynyddu o ran difrifoldeb. Fel arfer rhoddir esboniad am hyn mewn llythyr, ond mewn rhai mathau o achosion cynigir cyfarfod i'r diodesfwyr os byddant am drafod y penderfyniad ymhellach.

Cymorth i Ddioddefwyr

Hon yw'r elusen genedlaethol sy'n helpu pobl y mae troseddau'n effeithio arnynt ac mae'n rhoi cymorth cyfrinachol am ddim i ddiodesfwyr a thystion, p'un a hysbyswyd yr heddlu am y drosedd ai peidio.

Cynllun datganiad personol dan ddioddefwyr (VPS)

Mae'r cynllun hwn yn dyddio'n ôl i 2001 a'i fwriad yw rhoi llais i ddioddefwyr troseddau drwy roi cyfle iddynt ddweud wrth y system cyfiawnder troseddol sut mae'r drosedd wedi effeithio arnynt - yn gorfforol, yn emosiynol, yn seicolegol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Dylai dioddefwyr gael cyfle i wneud VPS pan gymerir datganiad tyst. Yna gallant roi datganiad pellach yn ddiweddarach, gan ddisgrifio unrhyw effeithiau hirdymor.

Gwarediad y tu allan i'r llys (O OCD)

Rhybuddion, rhybuddion amodol, gwyradau ieuencid (ceryddon a rhybuddion terfynol) a phenderfyniadau i beidio â chyhuddo ar sail dystiolaethol neu fudd y cyhoedd.

Mesurau arbennig

Mae Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn darparu ar gyfer ystod o fesurau arbennig i alluogi tystion sy'n agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth mewn treial troseddol i roi eu tystiolaeth orau.

Mae'r rhain yn cynnwys y dystiolaeth flaenaf wedi'i recordio, cyswllt byw, sgriniau o amgylch y llwyfan tystio, rhoi tystiolaeth yn breifat, rhoi tystiolaeth drwy gyswllt pell, y rhai sydd yn y llys yn tynnu wigiau a gynau, croesholi wedi'i recordio ar fideo, archwilio'r tyst drwy gyfryngwr a chymorthion ar gyfer cyfathrebu drwy gyfathrebwr neu ddehonglwr. Mae rhai mesurau wedi bod ar gael ers blynyddoedd lawer, er enghraifft sgriniau, tra bod eraill ond newydd gael eu cyflwyno megis cyfryngwyr.

Estynnodd Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 y diffiniad o agored i niwed i bob plentyn o dan 18 oed a daeth i rym ym mis Mehefin 2011.

Monitro'r Safonau Ansawdd Craidd (CQSM)

System fonitro fewnol yn erbyn y safonau, lle mae pob Ardal yn astudio sampl o achosion a gwblhawyd i asesu cydymffurfiaeth yn erbyn y Safon.

Peidio â pharhau ag achos

Y CPS yn rhoi'r gorau i achos yn ffurfiol drwy hysbysiad ysgrifenedig (o dan adran 23 Deddf Eryl Troseddau 1985).

Rhestr o'r tystion sy'n gorfod mynd i'r llys (LWAC)

Dogfen yw hon a gaiff ei llunio gan y CPS ac fe'i defnyddir i hysbysu Unedau Gofal Tystion am ba dystion sy'n gorfod mynd i'r llys.

Safonau Ansawdd Craidd (CQS)

Safonau sy'n nodi ansawdd y gwasanaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w ddisgwyl. Mae'r safonau yn adlewyrchu rhwymedigaethau cyfreithiol a phroffesiynol.

Siarter y Tyst

Gyda'r nod o adeiladu ar God y Dioddefwyr, mae hyn yn nodi'r safonau gwasanaeth craidd y dylai pob un o dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad eu cael gan yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill.

Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol (OCJR)

Tîm aml-adrannol yn y gorffennol a gefnogai'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol i gydweithio er mwyn darparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd. Fe'i symudwyd o dan ymbarél y Weinyddiaeth Gyfiawnder a bellach dyma'r Gyfarwyddiaeth Diwygio Cyfiawnder Troseddol lle mae Uned Dioddefwyr a Thystion.

Swyddog cyswllt tystion

Mae swyddog cyswllt tystion ym mhob llys sy'n helpu i gydgyssylltu'r broses o ddarparu cyfleusterau i dystion ac sy'n darparu canolbwynt i gysylltu ag asiantaethau eraill.

System rheoli achosion (CMS)

Y system TG ar gyfer olrhain achosion a rheoli achosion a ddefnyddir gan y CPS. Drwy gysylltiadau â systemau'r heddlu mae'r CMS yn cael deunydd achosion electronig. Bwriedir i ddeunydd o'r fath ddisodli ffeiliau papur yn gynyddol fel rhan o weithredu T3.

Tystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth

Mae Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn diffinio tystion sy'n agored i niwed fel plant a phobl ifanc o dan 17 oed a'r rhai sy'n dioddef o analluogrwydd corfforol neu feddyliol. Tystion sy'n cael eu bygwth yw'r rhai sy'n ofni rhoi tystiolaeth neu sy'n gofidio ynglŷn â gwneud hynny, a all leihau ansawdd y dystiolaeth honno - er enghraifft dioddefwyr trais rhywiol.

Tystion sy'n cael eu bygwth

Gweler *Tystion sy'n agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth isod*.

Uned Gofal Tystion (WCU)

TUned yr heddlu a'r CPS ar y cyd gyda chylch gwaith i adeiladu ar waith y broses genedlaethol o weithredu Dim Tyst Dim Cyfiawnder a chanolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth a safonau gwasanaeth i dioddefwyr a thystion yn y ddwy asiantaeth. Mae ei hamcanion yn cynnwys sicrhau bod y CPS yn cydymffurfio â phob ymrwymiad o ran dioddefwyr a thystion a meysydd ategol wrth gyflawni ymrwymadau'r CPS a'r heddlu i dioddefwyr a thystion.

Ceir mwy na 150 o unedau gofal tystion yng Nghymru a Lloegr sy'n gyfrifol am reoli gofal dioddefwyr a thystion yr erlyniad o'r adeg cyhuddo hyd at ddiwedd yr achos. Maent yn cynnwys swyddogion gofal tystion a staff cymorth eraill y mae eu rôl yn cynnwys hysbysu tystion yn gyson am hynt eu hachos a rhoi cymorth ymarferol i'w hannog i ddod i'r llys i roi eu tystiolaeth e.e. help gyda threfniadau gofal plant neu deithio.

Y Gwasanaeth Tystion

Mae'r Gwasanaeth Tystion yn rhan o Gymorth i Ddioddefwyr ac mae'n helpu dioddefwyr, tystion, eu teuluoedd a'u ffrindiau pan ddônt i unrhyw un o'r llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys hwyluso ymweliadau cyn treial ar gyfer tystion, fel eu bod yn gyfarwydd â'r llys a rolau'r bobl amrywiol yn y llys cyn iddynt roi eu tystiolaeth, cymorth ar ddiwrnod y treial a mynd gyda'r tystion i'r ystafell llys pan fyddant yn rhoi eu tystiolaeth a phan gaiff y troseddwr ei ddedfrydu (os yw'r barnwr neu'r ynad yn cytuno ar hyn). Maent hefyd yn rhoi cymorth ychwanegol i dystion sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu bygwth.



Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Swyddfa Llundain:
One Kemble Street
London WC2B 4TS
Ffôn. 020 7210 1187
Ffacs. 020 7210 1186

Swyddfa Caerefrog:
Foss House, Kings Pool
1-2 Peasholme Green
York, North Yorkshire, YO1 7PX
Ffôn. 01904 54 5490
Ffacs. 01904 54 5492

©Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.hmcpsi.gov.uk